

Cynllun Iaith Gymraeg

Gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) yn rhan o'r GIG. Hwn yw'r sefydliad annibynnol sy'n gyfrifol am ddarparu arweiniad cenedlaethol ar driniaeth a gofal ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r GIG yng Nghymru a Lloegr. Mae ei arweiniad ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a chleifion a'u gofalwyr i'w helpu i wneud penderfyniadau ar driniaeth a gofal iechyd.

O dan delerau Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) mae NICE yn ymroddedig i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Polisiau a gweithdrefnau newydd

Pan fydd NICE yn datblygu polisiau newydd bydd yn ystyried anghenion y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg er mwyn sicrhau bod y polisiau yn gyson â Chynllun yr Iaith Gymraeg.

Cynllunio a darparu gwasanaethau iechyd

Gall iaith chwarae rhan bwysig yng ngofal iechyd pobl.

Bydd pob eitem o arweiniad NICE yn atgoffa'r GIG bod cydnabod diwylliant ac anghenion siaradwyr Cymraeg yn bwysig a bod yn rhaid i sefydliadau GIG lleol ystyried a oes angen ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg wrth iddynt roi arweiniad NICE ar waith.

Ymroddiad y Sefydliad i'r cyhoedd

Pan fydd NICE yn cyhoeddi fersiynau o'i arweiniad ar gyfer y cyhoedd bydd yn gwneud hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ei nod yw darparu gwasanaeth o'r un safon uchel yn y ddwy iaith. Bydd yn egluro hyn nid yn unig yn ei adroddiad blynyddol ond hefyd ar ei wefan.

Ffonio ac ysgrifennu at NICE

Mae NICE yn croesawu llythyrau yn Gymraeg neu'n Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu at NICE yn Gymraeg byddwch yn cael ateb yn Gymraeg yr un mor gyflym â phe byddech wedi ysgrifennu yn Saesneg.

Mae'n flin gan NICE na all dderbyn galwadau ffôn yn Gymraeg. Os ydych yn siaradwr Cymraeg, gofynnir i chi a fyddai'n well gennych siarad gyda chymorth cyfieithydd ar-lein neu ysgrifennu at NICE yn Gymraeg.

Cyfarfodydd cyhoeddus

Pan fydd NICE yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus o'i fwrdd rheoli yng Nghymru, bydd yn hysbysebu'r rhain yn ddwyieithog mewn papurau newyddion yng Nghymru. Bydd yr hysbysebion yn nodi bod croeso i bobl siarad Cymraeg yn y cyfarfodydd. Bydd yr holl bapurau ar gyfer y cyfarfodydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a byddant ar wefan NICE yn y ddwy iaith.

Cyflwynir y cyfarfodydd a gynhelir yng Nghymru yn Gymraeg. Bydd gwasanaethau cyfieithu Gymraeg ar gael hefyd.

Gwefan NICE

Y brif ffordd y bydd NICE yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yw trwy ei wefan. Lle y gall pobl ddewis Cymraeg neu Saesneg. Mae holl wybodaeth NICE a anelir at y cyhoedd ar gael ar y wefan yn Gymraeg.

Cyhoeddiadau NICE

Mae NICE yn cyhoeddi papurau technegol sy'n darparu arweiniad ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio yn y GIG. Gan fod y papurau hyn yn aml yn cynnwys geiriau meddygol, ni chânt eu cyfieithu.

Bydd NICE yn aml yn paratoi taflenni ar gyfer y cyhoedd yn egluro ei arweiniad technegol. Bydd yn cyfieithu'r rhain ac yn eu dosbarthu yn Gymraeg/Saesneg ac yn Saesneg.

Bydd fersiwn dwyieithog ar gael o daflenni eraill ar gyfer y cyhoedd, adroddiadau blynyddol y Sefydliad, ac unrhyw ddeunydd arall a anelir at y cyhoedd, er enghraifft 'Arweiniad i NICE'.

Bydd taflenni dwyieithog ar gyfer cleifion yn hysbysu pobl, yn Gymraeg ac yn Saesneg, sut gallant gael copïau ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf o gyhoeddiadau NICE am ddim, ond pan godir tâl bydd y fersiwn dwyieithog yn costio'r un faint â'r un Saesneg.

Cyhoeddusrwydd NICE

Pan fydd NICE yn paratoi gwybodaeth i'r wasg am weithgaredd a gynhelir ganddo yng Nghymru, bydd yn cynhyrchu hyn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd hefyd yn hysbysebu cyfarfodydd ar gyfer y cyhoedd yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'i ddeunydd cyhoeddusrwydd yn ymwneud â materion technegol ac ni fydd NICE fel arfer yn ei gyfieithu.

Pan fydd NICE yn cynnal arolygon cyhoeddus yng Nghymru, caiff y rhain eu cynnal yn ddwyieithog.

Pan fydd NICE yn ysgrifennu llythyrau yn Gymraeg bydd yn defnyddio papur â'i enw wed'i argraffu yn Gymraeg, a bydd hyn hefyd ar ddogfennau Cymraeg.

Recriwtio staff i NICE a materion eraill

Caiff swydd ddisgrifiadau'r aelodau o'r staff sydd â chyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg eu diwygio a bydd y bwrdd yn sicrhau ei fod yn cynnwys aelod sydd â chylch gwaith penodol ar gyfer Cymru. Bydd NICE yn hysbysu aelodau newydd o'r staff o ymrwymïadau NICE. Gan fod NICE yn sefydliad bach, ni all osod y gallu i siarad Cymraeg fel amod o recriwtio fel arfer.

Os bydd NICE yn gosod gwaith ar contract i sefydliadau eraill, bydd yn sicrhau bod y contractwr yn ymwbyddol o'i ymrwymïadau i'r iaith Gymraeg.

Cadw llygad ar gynnydd

Bydd NICE yn penodi aelod o staff i sicrhau y caiff ei ymrwymiadau i'r iaith Gymraeg eu rhoi ar waith. Bob blwyddyn bydd yn hysbysu Bwrdd yr Iaith Gymraeg o'i gynnydd ymhob agwedd ar ei waith sy'n ymwneud â Chynllun yr Iaith Gymraeg.

Sylwadau a chwynion

Mae NICE yn croesawu awgrymiadau gan y cyhoedd ar gyfer gwella ei wasanaeth i siaradwyr Cymraeg. Bydd yn ymateb i gwynion yn unol â'i bolisiâu presennol ar gyfer delio â chwynion.

Os hoffech wneud sylw, cysylltwch â
Julian Lewis
Swyddog Iaith Gymraeg
National Institute for Clinical Excellence
MidCity Place
71 High Holborn
London WC1V 6NA

Ffôn: 020 7067 5910
E-bost: julian.lewis@nice.nhs.uk

National Institute for
Clinical Excellence
MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-313-6
Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth
Glinigol
Ebrill 2003

© Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol Ebrill 2003.
Cedwir pob hawl. Mae croeso i chi atgynhyrchu'r deunydd hwn
at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gwneud
elw o fewn y GIG. Ni chaniateir i sefydliadau masnachol i'w
atgynhyrchu ac ni chaniateir ei atgynhyrchu ar gyfer sefydliadau
masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig penodol y Sefydliad.